



## **Datganiad i'r Wasg O dan embargo tan 00:01, 28 Medi 2010**

**Mae angen i ni gyflawni'r hanfodion ar gyfer ein plant: galwad Comisiynydd Plant Cymru wrth iddo gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 09|10.**

Heddiw (28 Medi) bydd Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru, yn galw ar Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill i ganolbwyntio ar gyflawni'r hanfodion ar gyfer ein plant, wrth i bwysau gynyddu ar gyllidebau sy'n lleihau.

Cyn cyhoeddi ei drydydd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, amlygodd y Comisiynydd feysydd oedd yn hanfodol i ddatblygiad plentyn lle na welwyd cynnydd. Meddai:

“Mae'n ymddangos i mi, ar adeg o ansicrwydd ariannol, y dylem ni fod yn canolbwyntio'n hymdrechion a'n cyllidebau ar gyflawni'r hanfodion ar gyfer plant; o sicrhau bod systemau i amddiffyn plant rhag niwed a chamdriniaeth i sicrhau ein bod yn rhoi urddas a pharch i ddisgyblion ysgol trwy ddarparu cyfleusterau toiled digonol ar eu cyfer.”

Ychwanegodd:

“Roeddwn i'n gobeithio mai'r llynedd fyddai'r tro olaf i mi orfod codi llais am gyflwr toiledau ysgol, ond gwaetha'r modd, mae plant a phobl ifanc yn dal i godi materion yn ymwneud â chyflwr toiledau'r ysgol gyda mi.

“Er gwaethaf gweledigaeth glir Llywodraeth Cymru o greu cenhedlaeth o ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif, rydw i'n gweld anghydraddoldeb ar draws y wlad, gyda disgyblion mewn ysgolion newydd yn elwa o gyfleusterau gwych ac eraill yn dal i orfod defnyddio toiledau annigonol. Dyw hi'n wir ddim yn ddigon da ein bod ni'n cael ein hunain yn 2010 mewn sefyllfa lle mae plant yn cael eu gorfodi i ddefnyddio toiledau heb seddau a heb ddrysau ar y ciwbiglau, gyda chyfleusterau ymolchi annigonol, a'u bod yn teimlo mor gryf am hynny fel eu bod yn osgoi defnyddio'r toiled yn ystod y diwrnod ysgol. Mae'n fater o urddas a pharch. Oni fyddai cymdeithas sy'n delio'n deg â phlant yn dangos mwy o barch?”

Er ei fod yn croesawu rhai datblygiadau allweddol mewn blwyddyn a fu'n un arwyddocaol o safbwynt hawliau plant yng Nghymru, gan gynnwys rhai camau gweithredu cynhwysfawr i ymdrin â masnachu plant a'r canllawiau newydd sy'n gofyn bod awdurdodau lleol yn ceisio barn plant ac yn ei hystyried wrth ad-drefnu ysgolion, mae adroddiad Keith Towler hefyd yn amlygu'r angen am edrych ar adnoddau ar lefel genedlaethol a lleol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n adlewyrchu anghenion plant a phobl ifanc yn ddigonol. Mae'n dweud:

“Mae'r setliadau ariannol cyfredol a'r adolygiad cynhwysfawr o wariant sydd ar y ffordd rhai sydd i ddod yn golygu bod cyllidebu ar gyfer plant ar sail hawliau yn fwy pwysig nag erioed. Dim ond trwy wneud hynny y gallwn sicrhau bod y plant mwyaf agored i niwed yn cael eu hamddiffyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddatblygu system a ddylai wella'r broses o ragfynegi cyllidebau, ond rwyf i'n ofni bydd y momentwm yn cael ei golli.”

Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hefyd yn cwmpasu prif feysydd gwaith ei sefydliad yn ystod y deuddeg mis diwethaf, gan gynnwys cyhoeddi'r adroddiad am brofiadau dysgu plant a phobl ifanc, Gwranddo a Dysgu, a thrafod achosion unigol sy'n amrywio o faterion o fewn y system cyfiawnder ieuencid i'r amgylchedd.

Bydd Keith Towler yn ymddangos gerbron Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddydd Mawrth, 28 Medi, pan fydd Aelodau'r Cynulliad yn craffu ar gynnwys ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 09|10.

Gallwch lawrlwytho copi o'r Adroddiad Blynyddol o [www.complantcymru.org.uk](http://www.complantcymru.org.uk)

Diwedd

I drefnu cyfweiliad gyda'r Comisiynydd neu lefarydd, ffoniwch Sara Young ar 01792 765638 neu ebostiwch [sara.young@complantcymru.org.uk](mailto:sara.young@complantcymru.org.uk)